



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

15^{fed} Mehefin 2021

Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i

Plismona yn y pandemig – Ymateb yr heddlu i'r pandemig coronafeirws yn ystod 2020 a

Gwasanaethau'r ddalffa mewn amgylchedd COVID-19

Mae'n galonogol bod Arolygiaeth Ei Mawrhydi wedi cydnabod ymroddiad, ymrwymiad a hyblygrwydd yr heddlu drwy gydol y pandemig.

Yn ystod Ebrill y llynedd, cyflwynais i a'r Prif Gwnstabl ymateb ar y cyd i alwad am dystiolaeth gan y Pwyllgor Materion Cartref ynghylch parodrwydd y Swyddfa Gartref ar gyfer Covid-19. Oddi mewn iddo, fe wnaethom amlygu'r heriau yr oedd Heddlu Dyfed-Powys yn benodol yn eu hwynebu o ganlyniad i'r canllawiau dryslyd a munud olaf a oedd yn cael eu cyflwyno gan y Llywodraeth ganolog, a hynny'n aml yn groes i gyngor a phenderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud gan weinyddiaethau datganoledig.

Er gwaethaf hyn, rwyf yn hyderus bod Heddlu Dyfed-Powys wedi ymateb yn effeithlon ac yn gadarn i bob un o'r newidiadau o ran deddfwriaeth. Cefnogais negeseua 'arhoswch yn lleol' yr Heddlu, ac rwyf yn falch bod swyddogion wedi bod yn amlwg iawn yn ein cymunedau, yn ymgysylltu gyda'r cyhoedd ac yn eu haddysgu ynghylch canllawiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Roeddwn i'n bersonol ar flaen ymateb Plismona yng Nghymru i Covid-19, yn mynychu cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru ar ran pob un o'r pedwar Comisiynydd i drafod gyda'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Prif Chwip i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cael gwybod yn llawn am yr heriau sy'n wynebu swyddogion wrth iddynt weithio i gadw'r cyhoedd yn ddiogel yn ystod y cyfyngiadau symud.

Er mwyn cynnal fy nyletswydd trosolwg statudol drwy gydol y pandemig mewn modd priodol a chymesur, ymgwymerodd fy swyddfa ag adolygiadau o bell o gofnodion dalffeydd. Cyflawnwyd hyn bob pythefnos pan nad oedd ymweliadau corfforol â dalffeydd yn digwydd, ac y mae'n parhau'n fisol ar y cyd â galwadau ffôn ac ymweliadau dirybudd. Mae pwyntiau ffocws penodol yn cynnwys darpariaeth Oedolion Priodol, cyfreithwyr a llety diogel ar gyfer pobl ifanc.

Mae fy nhîm wedi parhau i weithio gyda fy Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr i sicrhau bod llais y rhai hynny sydd â phrofiadau bywyd yn dylanwadu ar graffu ar y ddarpariaeth i ddioddefwyr ar adeg pan mae'r bobl fwyaf agored i niwed wedi ei hynysu.

Mae gwaith ar y gweill ar ddatblygiad fy Nghynllun Heddlu a Throseddu newydd a recriwtio Prif Gwnstabl parhaol, y byddaf yn ei herio i fanteisio i'r eithaf ar y dysgu o'r newidiadau a orfodwyd arnom ni yn ystod y pandemig i wella ansawdd y gwasanaeth a brofir gan ddioddefwyr ac ein cymunedau yn y dyfodol.

Ceir manylion pellach am fy swyddfa ac ymateb yr Heddlu i'r pandemig mewn [adroddiad a gyflwynais i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ym Mehefin 2020](#).